


ADOLYGIADAU

Cyfres y Grefft

Crefftwyr Llechi gan Alun John Richards, Carreg Gwalch, 104 tud. Pris £5.50

Diwydiant Cymreig a Chymraeg oedd y diwydiant llechi. Enillwyd y creigiau, a naddwyd y cynnyrch gan y Cymry, drwy ddefnyddio dulliau a ddatblygwyd yng Nghymru, â pheiriannau a gynlluniwyd yng Nghymru. Cludwyd y llechi ar reilffyrdd yr oedd eu technoleg wedi'u datblygu yn ein gwlad. Cymry a adeiladodd ac hwyliodd y llongau a gludai'r llechi i bedwar ban byd.



O chwareli ynysig ym mlaenau'r mynyddoedd garw gwelwyd nid yn unig gynnyrch arbennig ond hefyd ffordd o fyw a diwylliant arbennig a anrhydeddai feirdd yn uwch na brenhinoedd. Lle byddai llyfrau mor amlwg â bara yn y bythynnod tlawd. Yn y gyfrol hon, mae'r awdur yn cofnodi camp a cholledigion, caledi a chalon y diwydiant unigryw hwn a'i grefftwyr.

Defnyddiwyd llechi i bopeth, fel cerrig beddau, llechi ysgrifennu mewn ysgolion, pileri llechi rhyw wyth modfedd o led a phedair troedfedd o hyd wedi'u bwrw ar eu pennau mewn rhes i weithdref fel clawdd i gaeau.

Daeth darllen y gyfrol ag hen atgofion yn ôl imi, a rhydd wybodaeth am hanes y diwydiant o'r cychwyn. Mae'n werth ei darllen, yn enwedig i'r rhai sy' heb wybod dim am y diwydiant a'r ffordd o fyw, ac hefyd i'r rhai a fagwyd yng nghanol y bwrlwm.

Cyfres y Grefft

Llyfrau Traddodiadol gan Gwyndaf Breese, Gwasg Carreg Gwalch, 112 tud. Pris £5.50

Mae'r llwy garu yn un o eiconau Cymru erbyn heddiw - yn symbol o fro'r diwylliant arbennig ac unigryw sy'n perthyn i'r wlad hon. Nid oes dim byd yn union yr un fath â hi i'w ganfod unlle arall yn y byd. Bob blwyddyn, bydd miloedd o ymwelwyr yn mynd â chopi a mynd â'r stori y tu ôl iddi adref gyda nhw.

Bydd y llwy garu yn parhau i gael lle amlwg mewn priodasau Cymreig ac mae llawer o grefftwyr yn gweithio yn y maes.


Mae'r gyfrol hon yn dechrau'r stori gyda chwaer hyn y llwy garu, sef y llwy gegin. Bwyd llwy fyddai'r brif gynhaliath ers talwm, ac roedd galw am llyfrau cawl, llyfrau uwd a lletwad crochan eyn bod sôn am ginio cyllyll a ffoc.

Datblygodd crefft y llwy draddodiadol yn gelfyddyd y llwy garu- dangosir elfennau'r gelfyddyd yn y gyfrol hon, gan egluro'r symbolaeth sydd y tu ôl i rai o'r cynlluniau cywraim.

Crefftwr o fro Ddyfi yw'r awdur yn wreiddiol. Symudodd i weithio yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Llyfrau Llafar Gwlad 65

Pobol a Phethau Dimbech gan R. M. (Bobi) Owen, Gwasg Carreg Gwalch, tud. 17 Pris £6.50



Mae'r apêl sydd mewn hanes lleol yn un eang. Dechreuodd yr awdur gyfrannu ysgrifau ar strydoedd, cymeriadau, busnesau a glasnau Dimbech a'r ardal yn y papur bro, Y Bigwn - ac roedd y diddordeb mawr ynddynt yn sicrhau y byddai'n sgwennu'n fisol am nifer o flynyddoedd. Bellaeh mae'n braf casglu'r ysgrifau hynny - a rhagor o fannau eraill - at ei gilydd a'u cyhoeddi'n un gyfrol.

Athro yw Bobi Owen wrth ei alwedigaeth - bu'n brifathro ar ysgolion y Mwynglawdd, Pwll y Grwys a Heulfre. Mae'n enedigol o dref Dinbech ac wedi bod â diddordeb mawr yn ei hanes a'i phobl erioed. Mae'n gasglwr mawr ar hen luniau, hen lythyrau a phob math o wybodaeth ddifur, ac eisoes wedi cyhoeddi tair gyfrol o hen luniau'r dref.


Tywysa'r awdur ni drwy ei ddyddiau cynnar yn y dref, gan roi cyfle inni ail fyw ein plentynod drwy uniaethu â holl ddigwyddiadau bore oes wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd ac yna symud i'r ysgol uwchradd - actio pasiant Nadolig i ei athrawon, dysgu ysgrifennu copper plate, cymysgu powdwr inc, cofio'r athrawon, diddordebau ysgol. Cawn ddod i adnabod cymerradau'r dre ac yn enwedig sgandatau mawr Dimbech, megis Sgandal y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 1939 pan gafodd Caradog Prichard gam am iddo wyro oddi ar y testun, a Sgandal H. M. Stanley, dim ond i enwi dwy.

Mae'r gyfrol yn llawn gwybodaeth a straeon diddorol, yn enwedig i'r rhai a fagwyd yn y dref, ond mae hefyd yn codi llen ar y gorffennol ac yn werth i eraill ddod i adnabod tref sydd braidd yn ddiarth i lawer.

Prynwch a mwynwch hi.

Cyfres Ti'n Jocan

HIWMOR Y CARDI gan Emyr Llywelyn, Y Lolfa, 92 tud., Pris £4.95



Mae'r gyfrol hon â mwy o ddyfnder na llyfr jôes arferol. Mae'n llawn atgofion gan Emyr Llywelyn ei hun o'i fywyd fel athro a disgybl, ac mae'n portreadu rhai o gymeriadau fraeth Ceredigion, yn cynnwys Pontsiân, a'i fam-gu Ruth Mynachlog, Idwal Jones, Garnon Davies, Tydfor, Beti Davies, Dai Ffostrasol, a sawl un arall.

Yn y dosbarth Saesneg a'r athro pigog yn ceisio dysgu beth oedd 'gwrywaidd' a 'benywaidd enwau yn Saesneg, roedd yr awdur yn digwydd eistedd yn ymyl Glyndwr o Bentrechwrt. Fe ddewisodd yr athro air anodd i ofyn i Glyndwr gan ei fod yn gwybod nad oedd fawr o ddiddordeb mewn gramadeg Saesneg ganddo. 'Glyndwr Davies, beth yw benywaidd fox?' gofynnodd yr athro yn Saesneg. Doedd gan Glyndwr, druan, yr un syniad o gwbl a dyma Emyr Llew yn sibrdw wrtho 'Vixen'. Roedd Glyndwr wedi ei gamddeall, ac yn ateb 'Ffoesen.'

Ceir casgliad o straeon digrif am weithwyr ffordd y Cyngor Sir, megis, pan of'nodd cydweithwr pam y sathrodd Wil y falwoden, a honno'n falwoden ddiniwed, yr ateb oedd: 'Mae'r diawl wedi bod yn 'y nilyn i round drw'r bore'.

A dyma un arall digrif iawn: aeth stîm-roller dros ben Jac. Cariwyd ef adre a chanwyd cloch ei gartref dair gwaith cyn i wraig Jac ddod at y ffenestr. Beth chi'n moyn? Mae newyddion drwg i chi - mae stîm-roler wedi mynd dros ben John y gwr. Allwch chi ddod lawr i agor y drws...? 'Dw i ddim yn dod lawr - hwpwch e mewn dan y drws'. Sut ellwch chi wthio John dan y drws a dim ond 'i ben o'n fflat?

Ceir fersiwn gwahanol yn y gogledd o nifer o'r storiâu sy'n dangos na ellir cyfyngu storiâu i un sir yn unig.

Yn ychwanegol i'r storiâu digrif ceir nifer o benillion gwerin i'w trysori.

Cefais fodd i fyw wrth ddatllen y gyfrol. Ilyfryn da i fynd ar eich gwyliau.